



Dinas a Sir Abertawe

Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2014/15 (Y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2015)

Adroddiad - Fersiwn Gryno

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat
gwahanol, e-bostiwch
mynediadiwasanaethau@abertawe.gov.uk, ffoniwch
01792 636731 neu ysgrifennwch at
Y Swyddog Cydraddoldeb, Ystafell Caerloyw, Neuadd y
Ddinas, Abertawe SA1 4PE

Cyflwyniad

Dyma grynodedb o Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2014-15. Dyma'n pedwerydd adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011. Gallwch weld yr adroddiad llawn yn <http://www.abertawe.gov.uk/ccs>.

Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn yr holl Amcanion Cydraddoldeb (yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol <http://www.abertawe.gov.uk/ccs>) ym mis Ebrill 2015 ac yn darparu diweddariad manwl yn yr adroddiad adolygu llawn.

Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb i hysbysu ein gwaith e.e. mewn Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, arolygon penodol a gwaith asesu anghenion.

Gwybodaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant

Mae'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd am y gweithlu i'w chanfod yn yr adroddiad adolygu llawn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall (sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) yn ystod 2014-15.

Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad (PCC) – Mae'r PCC hwn wedi disodli'r Pwyllgor Cydraddoldeb yn 2014. Mae'r PCC yn cynnwys Cynghorwyr ac yn cynorthwyo Aelodau Cabinet ar faterion sy'n ymwneud ag Ymrwymadau Polisi'r Cyngor.

Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb - mae Aelodau Hyrwyddo'n sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisiau a phenderfyniadau'r cyngor. Mae ein Gweinyddiaeth wedi penodi nifer o Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb sy'n ymwneud â holl nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalywr a cham-drin yn y cartref).

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) – Rydym wedi diweddaru ein proses AEC i gynnwys Hawliau'r Plentyn. Rydym yn parhau i gyhoeddi ein holl adroddiadau AEC yn www.abertawe.gov.uk/aec yn ogystal â'n gwaith AEC cyllideb. Mae'r broses AEC bellach yn rhan o broses adrodd a gwneud penderfyniadau'r cyngor.

Ymgynghori a chynnwys – Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy, e.e. y Fforwm BME (Du a Lleiafrifoedd Ethnig) a'r Fforwm LGBT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol). Cynhelir y ddau mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru.

Troseddau casineb – Yn dilyn adolygu ein gwaith ar droseddau casineb, rydym wedi mabwysiadu proses genedlaethol newydd wedi'i gweinyddu gan Gymorth i Ddiodefwr.

Gwaith rhanbarthol a phartneriaeth – Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus drwy ein Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol, yn ogystal â gweithgareddau eraill sydd eisoes wedi'u crybwyll.

Stonewall - Mae Stonewall Cymru'n elusen Cymru gyfan sy'n ceisio cyflawni cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LGB) ledled Cymru. Rydym bellach yn rhan o aelodaeth ranbarthol y rhaglen Hyrwyddwyr Addysg, fel y bydd ysgolion yn elwa o gefnogaeth a hyfforddiant Stonewall.

Addysg ac ysgolion – Rydym bron â gorffen creu system ar gyfer ysgolion i fonitro bwlio ac aflonyddu'n seiliedig ar hunaniaeth.

Gweithio gyda phobl hŷn – Mae gwaith eleni wedi cynnwys gweithgareddau ymgynghori, digwyddiadau, cylchlythyr a gwaith penodol ar y celfyddydau a phobl hŷn. Ym mis Medi 2014, roedd y cyngor wedi cymeradwyo dod yn Gymuned sy'n Gefnogol o Ddementia.

Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol - Byrddau Gwasanaethau Lleol yn derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru am y fframwaith hwn, yn gofyn am fanylion gwaith ar y themâu allweddol. Rydym wedi cyfrannu at yr ymateb lleol a dilynwyd hyn gan gyfarfod cadarnhaol gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ac Anabledd Cymru.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - Ym mis Medi 2013, ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu dyletswydd 'sylw dyladwy' o ran hawliau'r plentyn. Ers hynny, rydym wedi datblygu Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc a lanswyd ym mis Tachwedd 2014.

Cydlyniant Cymunedol - Mae'r cynllun cyflawni lleol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol wedi'i ddiweddarau yn unol â gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein trefniadau i sicrhau cynnydd a monitro'n parhau.

Tlodi - Mae trechi tlodi'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y cyngor a mabwysiadwyd Strategaeth Trechu Tlodi gan y cyngor ar 4 Tachwedd 2014.

Diwygio lles - Mae ein ffocws presennol yn sicrhau'n benodol ein bod yn barod i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn genedlaethol.

Cam-drin yn y Cartref - Agorodd Siop dan yr Unto Cam-drin yn y Cartref Abertawe ym mis Mawrth 2015 ac fe'i defnyddiwyd gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar waith ar Wobr Tref y Rhuban Gwyn am ein cyflawniadau yn ein gwaith aml-asiantaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod ar ei holl ffurfiau.

Cynllunio Busnes - Mae proses cynllunio busnes y cyngor yn parhau i gynnwys materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad cymdeithasol.

Hyfforddiant - Mae peth o'r gweithgareddau hyfforddiant y mae aelodau a swyddogion wedi'u cyflawni eleni wedi cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o wrthgaethwasiaeth/fasnachu pobl, troseddau casineb a sipsiwn a theithwyr.

Hawdd ei darllen - byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad blynyddol mewn fersiwn hawdd ei darllen eto eleni.

Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS) – Mae gennym ymagwedd gydlynol at yr holl waith cyfieithu a dehongli. Mae gwaith wedi parhau ar beilot Sign Translate ar gyfer ein canolfan gyswllt, lle bydd modd i bobl sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith gyntaf gael dehongliad uniongyrchol trwy we-ddolen. Bu'r adborth cychwynnol yn galonogol iawn.

Change Fund - Cefnogwyd 17 o sefydliadau mawr a bach yn ariannol yn ystod 2014-15 drwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Abertawe.

Arian LGBT Plant a Phobl Ifanc - Roedd arian grant ar gael o fis Ebrill 2013 am flwyddyn i ddarparu gwasanaeth cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Parhaodd y peilot hwn yn 2014/15.

Sylwadau cloi

Rydym wedi gwneud cynnydd pellach yn erbyn Ein Hamcanion Cydraddoldeb eleni (gellir ei weld yn yr adroddiad adolygu llawn) ac rydym yn hapus gyda'r wybodaeth ychwanegol rydym wedi adrodd amdani.

Wrth i ni ganolbwyntio ar flwyddyn olaf y cynllun hwn, byddwn yn datblygu CCS diwygiedig yn barod ar gyfer 2016, a fydd yn cynnwys Amcanion Cydraddoldeb newydd a/neu barhaus.